**STD 03-02(05)**

**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher, 10 Gorffennaf 2002**
**Amser:** **9:30am**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **Archwiliadau'r Pwyllgorau Pwnc - Gwrthdaro Posibl o ran Buddiannau**

Yn Atodiad A mae darnau o gofnodion cyfarfodydd Panel y Cadeiryddion. Maent yn nodi rhai pryderon ynghylch gwrthdaro posibl o ran buddiannau i'r Aelodau o'r pwyllgorau Pwnc sydd â chysylltiadau agos â sefydliadau sy'n cael eu harchwilio gan y Pwyllgor hwnnw. Mae Ysgrifenyddiaeth Panel y Cadeiryddion wedi gofyn bod y Pwyllgor yn ystyried y mater hwn mewn perthynas â'r adolygiad o weithdrefnau safonau.

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y mater a nodi a ydynt yn hapus bod y mater yn cael ei gyfeirio at yr Athro Woodhouse fel rhan o'i hadolygiad.

*Yr Ysgrifenyddiaeth*